## Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

## BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL [DDRAFFT] 2004/5

### Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl sy'n para o leiaf 12 mis. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y deunaw mis nesaf. Llunnir rhaglenni manwl ar gyfer pob tymor i ategu'r flaenraglen hon.

**Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau**

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog

dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae'r portffolio yn ymwneud â rhaglen y Llywodraeth i adfywio cymunedau Cymru, mentrau i fynd i'r afael â thlodi, yr economi gymdeithasol, y sector gwirfoddol, diogelwch cymunedol a chysylltiadau â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cyfiawnder ieuenctid, cyfle cyfartal, a thai.

3. Yn ôl Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8, prif gyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yw datblygu polisïau, craffu ar waith Gweinidogion a chyrff perthnasol, a chraffu ar ddeddfwriaeth.

**Amcanion**

4. Gan fod cylch gwaith y Pwyllgor mor eang, bydd yn mynd ati i weithio mewn ffordd strategol ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd o ran y pynciau y mae'n eu hystyried o blith gwahanol feysydd y portffolio ac o ran ei wahanol gyfrifoldebau.

**Blaenoriaethau**

5. Y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod a ddaw fydd:

- *Datblygu polisïau (RhS 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd y bydd modd iddo ddylanwadu fwyaf arnynt o ran datblygu polisïau. Yn ystod y cyfnod a ddaw, bydd y Pwyllgor yn parhau â'i adolygiad cynhwysfawr o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a bydd yn ystyried cynnal ymchwiliadau i'r meysydd isod:

- Paratoi ar gyfer tai newydd yng ngoleuni'r ffaith bod y stoc dai yn heneiddio
- Trais yn y Cartref
- Ariannu'r Sector Gwirfoddol
- Undebau Credyd
- Rôl yr Economi Gymdeithasol o ran Adfywio Cymunedau

- *Craffu ar waith y Gweinidog (RhS 9.7(ii))* – ym mhob cyfarfod, bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor am ddatblygiadau cyfredol yn ei phortffolio. Bydd y Pwyllgor am gadw llygad yn arbennig ar y camau i roi'r strategaeth Trais yn y Cartref ar waith, datblygiad parhaus gwahanol rannau o'r Strategaeth Dai, Cymunedau'n Gyntaf, datganoli'r Gwasanaeth Tân i Gymru, a materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys tlodi plant.

- *Craffu ar gyrff a noddir gan y Cynulliad (RhS 9.7(iii))* – dim ond un Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, sef y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau. Er bod ei waith yn berthnasol i'r Pwyllgor, nid yw'n debygol y bydd yn ymwneud llawer ag ef.

- *Eitemau eraill (RhS 9.*8) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion perthnasol yn ôl y galw.

- *Deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (RhS 9.8(i) a 24) – bydd y Gweinidog yn amlinellu is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn rheolaidd a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig sy'n berthnasol iddo. Bydd y Pwyllgor yn nodi eitemau o ddeddfwriaeth y gall ddylanwadu ar eu cynnwys i graffu arnynt, a bydd hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Dirprwy Lywydd yn ei chyfeirio ato, yn ôl y galw. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Pwyllgor am graffu'n arbennig ar is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r Ddeddf Dai arfaethedig a'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar waith yng Nghymru.

- *Cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (RhS 9.8(ii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn ystod tymor yr haf a bydd yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref.

- *Cwynion* (RhS 9.8(iii) a 23) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion sy'n cael eu cyfeirio ato o dan Reol Sefydlog 23.

- *Penodiadau cyhoeddus* (RhS 9.8(iv) a 22) – bydd y ddau Aelod a enwebir gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i gyrff cyhoeddus pan fydd swyddi gwag ar gael.

- *Materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad* (RhS 9.8(v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond gofynnir i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i roi gwaith i'r Pwyllgor.

## Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn pennu dyletswyddau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y materion isod yn llywio gwaith y Pwyllgor:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd mewn mannau heblaw adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ym mhob rhan o Gymru. Bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal wrth fynd i'r afael â'r holl faterion yn ei bortffolio;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – Yn ystod ei holl drafodaethau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng twf economaidd a chymdeithasol a diogelu'r amgylchedd, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau**

**Mehefin 2004**